COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Y Llwyfan
Heol y Coleg
Caerfyrddin
SA31 3EQ

Cadeirydd:
**Dr Aled Eirug**
Prif Weithredwr:
**Dr Ioan Matthews**

**Ffôn:** 01267 610400
**E-bost:** gwybodaeth@colegcymraeg.ac.uk

Cyfeiriad e-bost: SeneddCyllid@Senedd.Cymru

27 Tachwedd 2024

Annwyl Bwyllgor,

**Cyf: Galwad am wybodaeth – cynigion ynghylch Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26**

Diolch yn fawr iawn am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26.

Mae'r Coleg Cymraeg yn creu a hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi ac astudio yn y Gymraeg drwy weithio gyda cholegau addysg bellach, ysgolion, prifysgolion, darparwyr prentisiaethau a chyflogwyr. Ry'n ni'n ysbrydoli ac yn annog pawb i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg, gyda'r nod o greu gweithlu dwyieithog, gan gynnwys y gweithlu addysg ei hun.Bydd ein hymateb i'r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar yr elfennau hynny o'r Gyllideb sy'n berthnasol i gylch gorchwyl y Coleg.

## Addysg bellach a phrentisiaethau Cymraeg a dwyieithog

Yn 2018 derbyniodd y Coleg gyfrifoldeb am addysg bellach a phrentisiaethau ac rydym wrthi'n gweithredu cynlluniau uchelgeisiol i ddatblygu'r ddarpariaeth i *bob* dysgwr yn y sectorau hyn, beth bynnag eu sgiliau Cymraeg.

Derbyniodd y Coleg gyllideb ychwanegol yn sgil y Cytundeb Cydweithio yn 2022-23 a 2023-24 i fuddsoddi mewn staff a darpariaeth Cymraeg a dwyieithog newydd yn y colegau addysg bellach a'r darparwyr prentisiaethau. Penodwyd dros 60 hwylusydd yn y colegau yn y meysydd blaenoriaeth megis Iechyd a Gofal a Gofal Plant, a cyllidwyd dros 20 o aseswyr yn y maes prentisiaethau.

O ganlyniad i'r cynnydd mewn cyllideb mae cynnydd amlwg wedi digwydd yn y gweithgareddau dysgu dwyieithog yn y sector ôl-16 ers i'r Coleg dderbyn cyfrifoldeb fel a welir yn y tabl islaw:

Gweithgareddau dysgu gydag o leiaf elfen Gymraeg:

| **Blwyddyn** | Addysg bellach | Dysgu yn y gweithle |
|---|---|---|
| **2017/18** | 7.3% | 10.3% |
| **2018/19** | 8.7% | 11.9% |
| **2019/20** | 8.8% | 13.0% |
| **2020/21** | 14.7% | 20.8% |
| **2021/22** | 18.2% | 25.3% |

Ffynhonnell data: Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr – Adroddiad blynyddol 2022/23 (llyw.cymru tud.24)

Oherwydd yr heriau cyllidebol a wynebwyd gan Lywodraeth Cymru wrth baratoi cyllideb 2024-25, ni dderbyniodd y Coleg y cynnydd a addawyd o £840,000, ar gyfer trydedd blwyddyn y Cytundeb Cydweithio. Serch hynny, roeddem yn croesawu'r ymrwymiad cadarn gan y Llywodraeth a Phlaid Cymru i ail-broffilio'r cynnydd ychwanegol i flwyddyn ariannol 2025-26. **Mae'n allweddol bod y buddsoddiad hynny yn dod i'r Coleg ar gyfer 2025-26 er mwyn gallu parhau i fuddsoddi, yn bennaf yn y maes prentisiaethau (dysgu seiliedig ar waith).**

Cynhaliwyd ymchwiliad diweddar gan Bwyllgor Diwylliant y Senedd i mewn i Ddatblygu'r Ddarpariaeth Gymraeg ol-16. Cyflwynwyd tystiolaeth gan nifer o gyrff yn y sector oedd yn nodi - er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau i dyfu mewn modd sy'n gynaliadwy, mae'n allweddol bod y cyllid gan Lywodraeth Cymru yn parhau ac yn cynyddu dros y blynyddoedd i ddod. Rydym ni'n aros i'r pwyllgor gyhoeddi ei adroddiad a'i argymhellion.

**Cyllido addysg bellach a phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog**

2% o gyllideb addysg bellach Llywodraeth Cymru sy'n cael ei wario ar ddarpariaeth addysg bellach a phrentisiaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, tra bod siaradwyr Cymraeg yn cynrychioli 22% o'r dysgwyr. Mae Cynllun Gweithredu Addysg Bellach a Phrentisiaethau Cymraeg a dwyieithog y Coleg Cymraeg a'r Llywodraeth yn targedu *pawb* yn y sector, beth bynnag eu sgiliau Cymraeg.

## Addysg uwch

Sefydlwyd y Coleg yn 2011 ac erbyn hyn mae darpariaeth helaeth yn y Gymraeg ac yn ddwyieithog wedi ei ddatblygu ar draws pob prif bwnc a ddarperir ym mhrifysgolion Cymru. Bellach mae dros 8,660 o fyfyrwyr yn astudio rhywfaint o'u cwrs gradd trwy gyfrwng y Gymraeg sy'n 27% o'r holl siaradwyr Cymraeg mewn prifysgolion yng Nghymru.

Mae Cynllun Academaidd diweddaraf y Coleg yn amlinellu ein cynlluniau ar gyfer y cyfnod nesaf ac un o'r prif amcanion ydy denu cynulleidfaoedd newydd i addysg uwch Cymraeg a dwyieithog gan gynnwys y rheiny sy'n llai hyderus yn defnyddio'u Cymraeg. Mae 19,786 o siaradwyr Cymraeg yn astudio mewn prifysgol yng Nghymru, sef 13% o'r myfyrwyr ym mhrifysgolion Cymru, ac mae'r Coleg wrthi'n datblygu cynlluniau i ddenu rhagor ohonynt i astudio rhan o'u cwrs yn Gymraeg. Mae'n gwbl allweddol bod y Coleg yn derbyn y cyllid a ragwelwyd i gefnogi'r gwaith pwysig hwn yn ogystal â diogelu'r ddarpariaeth sydd eisoes wedi eu sefydlu. .

**Cyllido addysg uwch cyfrwng Cymraeg**

3% o gyllideb addysg uwch Llywodraeth Cymru sy'n cael ei wario ar ddarpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg a dwyieithog (nid yw hyn yn cynnwys cyllideb Cynhaliaeth i Fyfyrwyr) tra bod siaradwyr Cymraeg yn cynrychioli 13% o'r myfyrwyr mewn prifysgolion yng Nghymru.

## Medr a chyllido addysg drydyddol Gymraeg a dwyieithog

Ym mis Mehefin 2023, cafodd y Coleg ei ddynodi gan Weinidogion Cymru i gynghori Medr (y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil), at ddiben ei gynorthwyo i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 9(1) y Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, sydd yn ymwneud â hybu addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rydym wedi cyflwyno cyngor cychwynnol trosfwaol ar faterion polisi, rheoleiddio a chyllido i Medr er mwyn dylanwadu ar ei Gynllun Strategol cyntaf a gyflwynir i'r Llywodraeth ym mis Rhagfyr. Bydd y cyngor, ac ymateb Medr i'r cyngor, yn cael eu cyhoeddi dros yr wythnosau nesaf.

Yn eu fersiwn ymgynghori o'r Cynllun Strategol, mae Medr wedi nodi bwriad, yn unol â'r Blaenoriaethau Strategol a osodwyd ar ei gyfer gan Lywodraeth Cymru ac a ategwyd yng nghyngor cychwynnol y Coleg, i ddatblygu Cynllun Cenedlaethol ar gyfer y Gymraeg yn y sector addysg drydyddol. Mae'r Coleg yn croesawu hynny ac yn edrych ymlaen at gynghori Medr ymhellach ar ddatblygiad y cynllun hwnnw.

Er mwyn gwireddu bwriad y Ddeddf i annog ac ateb y galw am Ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog yn y sector drydyddol, mae angen sicrhau cyllideb ddigonol er mwyn buddsoddi mewn staff, darpariaeth ac adnoddau.

## Bil y Gymraeg ac Addysg

Er mai'r system addysg oed statudol yw prif ffocws Bil y Gymraeg ac Addysg, bydd yn gosod seiliau ar gyfer dilyniant i addysg drydyddol ac oddi yno i fyd gwaith. Bydd yn creu potensial i sicrhau bod llawer mwy o blant a phobl ifanc Cymru'n gallu datblygu a defnyddio'u sgiliau Cymraeg, ac yn y pen draw helpu i greu'r gweithluoedd dwyieithog sydd wir eu hangen ar draws meysydd cyflogaeth amrywiol. Mae angen dechrau cynllunio nawr ar gyfer diwallu anghenion y rheiny fydd yn gadael y sector statudol ac yn cyrraedd y sector drydyddol yn siaradwyr Cymraeg annibynnol.

**I gloi**

Mae cyfraniad addysg drydyddol at wireddu amcanion Strategaeth Cymraeg 2050 y Llywodraeth a nodau polisi Bil y Gymraeg ac Addysg yn glir, ond mae angen buddsoddiad cyllidebol er mwyn gwireddu'r amcanion hynny.

Hyderwn bydd cynnwys y llythyr hwn o fudd i bwyllgorau'r Senedd wrth i'r gwaith o graffu ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26 fynd rhagddo. Am ragor o wybodaeth mae croeso i chi gysylltu gyda Gwenllian Griffiths, Cyfarwyddwr Polisi, Cyfathrebu ac Ymgysylltu'r Coleg ar g.griffiths@colegcymraeg.ac.uk.

Yn gywir,

Ioan Matthews

**Dr Ioan Matthews**
**Prif Weithredwr**

cc. Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol Senedd Cymru (SeneddDiwylliant@Senedd.Cymru) a Phwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd (SeneddPlant@Senedd.Cymru)